TGAU

# 3010NA0-1

## DYDD GWENER, 26 MAI 2023 – PRYNHAWN

## LLENYDDIAETH GYMRAEG

## UNED 1: Barddoniaeth

## HAEN UWCH

## 1 awr 15 munud a'ch amser estynedig

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

## DEUNYDDIAU YCHWANEGOL

**Llyfryn ateb 16 tudalen CBAC (pinc).**

## CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR

**Defnyddiwch inc neu feiro du neu eich dull arferol.**

**UN CWESTIWN GORFODOL ar farddoniaeth sydd ar y papur hwn.**

**Ni chaniateir defnyddio geiriaduron.**

**Dylech dreulio 15 munud yn cynllunio eich ateb.**

**(Trowch y dudalen)**

## GWYBODAETH I YMGEISWYR

**Mae 40 marc am y cwestiwn hwn.**

**Bydd trefn a chywirdeb eich ysgrifennu yn cael eu hystyried yn rhan o'r asesiad.**

(Trowch y dudalen)

1. Darllenwch y DDWY gerdd ganlynol yn ofalus.

Yn y cerddi mae'r beirdd YN CYFLEU GOBAITH MEWN SEFYLLFA ANODD.

CYMHARWCH y DDWY gerdd gan ddangos sut maen nhw'n DEBYG a/neu'n WAHANOL.

Wrth drafod y cerddi dylech gyfeirio at y canlynol:

- cynnwys a neges / themâu y cerddi
- sut mae'r beirdd yn cyfleu eu syniadau neu'n creu awyrgylch yn y cerddi (nodweddion arddull, mesurau ac ati)

(Trowch y dudalen)

- **eich ymateb personol i'r cerddi.**

**Wrth ateb, cofiwch DDYFYNNU'N BRIODOL A CHYFEIRIO AT ENGHREIFFTIAU PENODOL i gefnogi'ch sylwadau. [40 marc]**

**(Trowch y dudalen)**

# GWELD Y GORWEL

Yn **rehab** y colli nabod – sŵn traed
sy'n troi'r awr ddiddarfod,
sŵn y byw diflasa'n bod.

Yn **rehab**, bod yw'r rheol, – bod drwy'r dydd,
bod drwy'r daith hunanol
wna **druggie'n** dod o'i rigol.

Yn **rehab** o dan label, – yn nheilchion
ergydion ei gawdel
gwrid ei gariad yw gorwel.

Sŵn y dydd yw hi sy'n dod – o'r nosau,
rhanna ias cyfarfod,
y sŵn byw melysa'n bod.

Aneirin Karadog

(Trowch y dudalen)

# YMWELWYR

Daethant eto heddiw i'r ward
â'u *pwysïau o flodau i sirioli'r lle.
Dod yn sblash o liw
iddi gael arogli'r llethrau,
anadlu'r pridd a gweld yr haul.

Dod â'u cylchgronau taenu clecs
i'w chadw rhag gwallgofi'n ei chell.
Dod yn gusanau i gyd
i rannu cyfrinachau
am *helbulon ysgol a chariad newydd,
am gigio i guriad *Gwibdaith Hen Frân
a Chowbois Rhos Botwnnog.

Ac er i fysedd yr heulwen
wthio'u ffordd drwy ffenestri'r ward
gan ddawnsio'n ysgafn ar wynder
gobennydd
gwyddai fod y gaeaf yn gafael
a dieithrwch nos yn cau amdani.

(Trowch y dudalen)

Hwythau'n byw celwydd
ac yn rhyw ddisgwyl fesul *ffun
y deuai pelydryn, un pelydryn
i oleuo ei byd.

Geraint Lloyd Owen

## GEIRFA

* pwysïau – mwy nag un tusw / bwnshied
* helbulon – helyntion
* Gwibdaith Hen Frân a Chowbois Rhos Botwnnog – grwpiau pop Cymraeg
* ffun – anadl

DIWEDD Y PAPUR